CYNGOR CYMUNED BRO MACHNO

Iau, 09 Medi 2021 – 7.30yh
Neuadd Ty'n-y-porth

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 09 Medi 2021** am 7.30 yn Neuadd Ty'n-y-Porth

1. Croeso, ymddiheuriadau a materion personol
2. Datgan diddordeb
3. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
4. Materion yn codi o'r cofnodion
5. Gohebiaeth
6. Adroddiad cyllidol
7. Materion cynllunio
8. Materion eraill

**Presennol**:
Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd)
Ceri Phillips
Claire Roberts
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies
Eluned McFadden
Eryl Owain (Is-Gadeirydd)
Geraint Thomas

**Ymddiheuriadau**:
Colin Davies
Eifion Davies
Wyn Ellis Jones (Cynghorydd Sir)

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **15 Gorffennaf 2021** fel rhai cywir, Dylan Davies yn cynnig ac Eryl Owain yn eilio.

## Materion yn codi:

**Paneli solar:** Gofynnwyd i'r cyngor ddarparu prawf ei fod yn berchen ar y toiledau. Nid oedd y paneli wedi'u cofrestru'n gywir. Aros i arbenigwr ddarparu eithriad tystysgrif perfformiad ynni (EPC) ac yna gellir cofrestru'r paneli.

**Arwydd: Cwm Penmachno / Ffestiniog:** Mae'r Cyngor Sir wedi mynd yn ddistaw. Adroddwyd bod coetsys'n dal i

Minutes of a meeting held on **Thursday 09 September 2021** at 7.30 at Neuadd Ty'n-y-Porth

1. Welcome, apologies and personal matters
2. Declaration of interest
3. Confirmation of minutes of the last meeting
4. Matters arising from the minutes
5. Correspondence
6. Financial report
7. Planning matters
8. Other matters

**Present:**
Dafydd Gwyndaf (Chairperson)
Ceri Phillips
Claire Roberts
Daniel Tomos (Clerk)
Dylan Davies
Eluned McFadden
Eryl Owain (Deputy Chairperson)
Geraint Thomas

**Apologies:**
Colin Davies
Eifion Davies
Wyn Ellis Jones (County Councillor)

**Minutes:** The minutes of the **15 July 2021** meeting were accepted as a true record, proposed by Dylan Davies and seconded by Eryl Owain.

## Matters arising:

**Solar panels:** The council has been requested to provide proof that it owns the toilets. The panels were not correctly registered. Waiting for a specialist to provide an energy performance certificate (EPC) exemption and then the panels can be registered.

**Sign: Cwm Penmachno / Ffestiniog:** Nothing further from the County Council. It was reported that coaches

yrru i Gwm Penmachno drwy gamgymeriad. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir eto.

are still driving to Cwm Penmachno by mistake. Decided to contact the County Council again.

**White Street:** Mae'r Cyngor Sir wedi awgrymu codi uchder yr arwydd *Dim Ffordd Drwodd* neu ei symud i ochr arall y ffordd. Penderfynwyd gofyn i'r arwydd gael ei symud.

**White Street:** The County Council have suggested raising the height of the *No Through Road* sign or moving it to the other side of the road. It was decided to ask for the sign to be moved.

**Cais am fainc:** Mae Cartrefi Conwy yn hapus i'r Cyngor Cymuned ddefnyddio lleiniau bach o dir ar gyfer meinciau, o dan drwydded ac ar yr amod bod y Cyngor Cymuned yn talu am yr holl waith ac yswiriant. Penderfynwyd trafod ymhellach gyda phreswylwyr.

**Request for a bench:** Cartrefi Conwy are happy for the Community Council to use small plots of land for benches, under licence and provided that all works and insurance is paid for by the Community Council. Decided to discuss further with residents.

**Ffilmio yn y pentref:** Adroddwyd y bydd y cwmni sy'n gwneud ffilm Netflix yn y pentref rhwng 13-16 Medi. Mae'r cwmni wedi rhoi rhodd hael i'r gymuned.

**Filming in the village:** Reported that the company making a Netflix film will be in the village between 13- 16 September. The company has made a generous donation to the community.

**Wal y Fynwent:** Mae pob contractwr yn brysur ar hyn o bryd ond penderfynwyd gofyn eto am bris.

**Cemetery Wall:** All contractors are busy at the moment but it was decided to ask again for a quote.

## Materion ffyrdd:

## Road:

**Dŵr ar y ffordd ger Park Hill:**
Mae'r Cyngor Sir wedi ysgrifennu at berchennog Park Hill. Bydd y Cyngor yn ystyried cymryd camau cyfreithiol os nad ymdrinnir â'r broblem. Penderfynwyd cadw mewn cysylltiad â'r Cyngor Sir.

**Flooding on the road near Park Hill:**
The County Council have written to the owner of Park Hill. The Council will consider taking legal action if the problem is not fixed. It was decided to keep in contact with the County Council.

**Pont yng nghanol Penmachno:** Nid yw'r Cyngor Sir wedi trwsio'r bont rhwng y Machno Inn a'r eglwys. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir eto.

**Bridge in the centre of Penmachno:** The bridge between the Machno Inn and the church has a tree growing through it. Decided to contact the County Council.

**Cerbydau'n Goryrru – Ffordd Ysbyty:** Adroddwyd bod cerbydau'n teithio'n rhy gyflym i lawr y ffordd i gyfeiriad y pentref. Penderfynwyd gofyn y Cyngor Sir am arwyddion terfyn cyflymder (ategol/bach) wrth ochr yr eiddo Tŷ Newydd Uchaf ac Elusendy.

**Speeding Vehicles – Ysbyty Road:** Reported that vehicles are travelling too fast down the road in the direction of the village. Decided to ask the County Council for speed limit repeater signs beside the property Tŷ Newydd Uchaf and Elusendy.

## Gohebiaeth

## Correspondence

## Adroddiad Cyllidol

## Financial Report

Nodwyd bod £12,407.02 yn y banc.

It was noted that there was £12,407.02 in the bank.

Talwyd y biliau canlynol: Olwen Griffiths £18.30 papur toiled, Eluned Mcfadden £72.66 blodau, Clerc £16.90 papur toiled, Cadeirydd £100 er cof am Elfed Williams, Dŵr Cymru £55.26 toiledau, DoodleIT £150 gwefan y Cyngor, Un Llais Cymru £144 taliad tanysgrifiad blynyddol, HSBC £10.10 taliadau banc, NPower £108.27 trydan i'r toiledau, Clerc £20.27 gwariant Mai-Awst, Google £4.14 Google Workspace.

Talwyd y canlynol i mewn: Google £0.11 fel gwiriad diogelwch, Cyngor Sir Conwy £720 llwybrau cyhoeddus, Cyngor Sir Conwy £1,833 praesept, CP Film Productions £1,500 rhodd i'r gymuned.

The following bills were paid: Olwen Griffiths £18.30 toilet paper, Eluned Mcfadden £72.66 flowers, Clerk £16.90 toilet paper, Chairperson £100 in memory of Elfed Williams, Dŵr Cymru £55.26 toilets, DoodleIT £150 Council website, One Voice Wales £144 annual subscription, HSBC £10.10 bank charges, NPower £108.27 electricity for the toilets, Clerk £20.27 expenditure May-August, Google £4.14 Google Workspace.

The following was paid in: Google £0.11 security check, Conwy County Council £720 public footpaths, Conwy County Council £1,833 precept, CP Film Productions £1,500 donation to the community.

## Materion Cynllunio

**NP4/29/512 Tir ger Tan Y Bryn, Glasgwm Road, Penmachno, Betws Y Coed, LL24 0UF: Codi annedd arfaethedig, creu mynediad i gerbydau a gwaith cysylltiedig:** Anfonwyd sylwadau a dderbyniwyd at awdurdod y parc. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.

## Planning

**NP4/29/512 Land adjacent to Tan Y Bryn, Glasgwm Road, Penmachno, Betws Y Coed, LL24 0UF: Proposed erection of dwelling, creation of vehicular access and associated works.** Comments received were sent to the park authority. There were no objections.

## Materion eraill

**Baw cŵn:** Adroddwyd bod pobl yn rhoi baw cŵn yn y biniau anghywir fel bin yr ysgol. Penderfynwyd gofyn am fin gwastraff cŵn ychwanegol. Mae'r bin gwastraff cyffredin sydd ar y grîn mewn cyflwr gwael. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir amnewid y bin.

**Llys Meddyg:** Crëwyd mynediad newydd i'r brif ffordd a allai fod yn beryglus. Cysylltwyd â'r Cyngor Sir a'r Parc Cenedlaethol.

**Machno Inn:** Mae strwythur wedi'i adeiladu y tu ôl i'r dafarn. Penderfynwyd cysylltu â'r Parc Cenedlaethol ac adrodd eto am y problemau amrywiol gyda'r safle a hefyd i adrodd eto am yr eiddo Swch yng Nghwm.

**Arian gan y Cyngor Sir:** Mae'r Cyngor Cymuned bellach wedi derbyn taliad gan y Cyngor Sir am glirio llwybrau cyhoeddus.

**Diffyg signal ffôn symudol:** Adroddwyd bod gwaith wedi dechrau ar y mast (Rhwydwaith Gwasanaethau Brys) yng Nghwm ond mae diffyg gwasanaeth ffôn symudol yn parhau i fod yn broblem. Penderfynwyd cysylltu ag EE i ddarganfod a fydd y mast newydd yn darparu gwasanaeth masnachol.

**Wifi - Neuadd Ty'n y Porth:** Adroddwyd na fydd y Cyngor Sir yn gosod Wifi yn y pentref am nad ydynt yn berchen ar unrhyw un o'r adeiladau ar wahân i'r ysgol. Bydd y

## Other matters

**Dog waste:** It was reported that people are putting dog poo in the wrong bins such as the school bin. Decided to ask for an additional dog waste bin. The general waste bin on the green is in a poor condition. It was decided to ask the County Council to replace the bin.

**Llys Meddyg:** A new access has been created to the main road which is potentially dangerous. The County Council and National Park have been contacted.

**Machno Inn:** A structure has been built behind the pub. It was decided to contact the National Park and to report again the various problems with the site and also to report again the property Swch in Cwm.

**Money from the County Council:** The Community Council has now received payment from the County Council for clearing public footpaths.

**Lack of mobile phone signal:** Reported that work has begun on the mast (Emergency Services Network) in Cwm but the lack of mobile phone service remains a problem. It was decided to contact EE to find out if the new mast will provide a commercial service.

**Wifi - Neuadd Ty'n y Porth:** Reported that the County Council will not install Wifi in the village because they do not own any of the buildings apart from the school. The

| | |
|---|---|
| clerc yn cael pris am osod / darparu Wifi ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned. | clerk will get a quote for installation / provision of Wifi and report back to the Community Council. |
| **Gwefan y Cyngor Cymuned:** Cytunwyd y bydd y clerc yn symud y wefan i ddarparwr rhatach. | **Community Council Website:** Agreed that the clerk will move the website to a cheaper provider. |
| **Cerbydau sy'n gyrru drwy Gwm i'r chwarel lechi:** Derbyniwyd cwyn am nifer y cerbydau. Ni ellir cymryd unrhyw gamau ynghylch cerbydau sy'n defnyddio ffordd gyhoeddus yn gyfreithlon. | **Vehicles driving through Cwm to the slate quarry:** Complaint received about the number of vehicles. No action can be taken in respect of vehicles lawfully using a public road. |
| **Cennin Pedr**: Penderfynwyd dod o hyd i fylbiau cennin Pedr ar gyfer y pentref. | **Daffodils**: decided to source daffodil bulbs for the village. |
| **Ti a Fi:** Adroddwyd y bydd Ti a Fi yn defnyddio'r Neuadd dros dro. Penderfynwyd cynnig cymorth ariannol os nad oes opsiynau eraill ar gael. | **Ti a Fi:** Reported that the playgroup will be using the hall temporarily. Decided to offer financial support if other options are unavailable. |
| **Wal Frics – Maes y Waen:** Pryder y gallai plant sy'n chwarae ar y wal syrthio a brifo eu hunain. Penderfynwyd cysylltu â Chartrefi Conwy. | **Brick Wall - Maes y Waen:** Concern that children playing on the wall may fall and hurt themselves. It was decided to contact Cartrefi Conwy. |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Adroddwyd bod contractwyr yn achosi aflonyddwch drwy yrru i'r goedwig yn gynnar iawn yn y bore. Penderfynwyd gwahodd CNC i'r cyfarfod nesaf. | **Natural Resources Wales:** It was reported that contractors are causing disturbance by driving into the forest very early in the morning. It was decided to invite NRW to the next meeting. |
| **Cerbyd wedi'i adael, Stryd Llewelyn:** Adroddwyd bod fan wedi'i gadael, heb ei drethu, yn dal i barcio ar ochr y ffordd. Penderfynwyd cysylltu â'r heddlu, y Cyngor Sir ac i roi gwybod am dipio anghyfreithlon y tu ôl i'r fan. | **Abandoned vehicle, Llewelyn Street:** Reported that an abandoned, untaxed van is still parked on the roadside. It was decided to contact the police, the County Council and to report the fly-tipping behind the van. |
| **Cyfarfod nesaf**<br>Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, 11 Tachwedd. | **Next meeting**<br>The next meeting will be held on Thursday 11 November. |